# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 31.07.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tudor Owen
Y Cynghorwyr Huw Edwards, Dilwyn Lloyd

**Hefyd yn Bresennol:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu), Robert Taylor (Swyddog Gorfodi Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 3. CAIS I GEFNOGI GWAHARDDIAD

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad i'r Is Bwyllgor yn manylu ar waharddiad masnachwr oddi ar Farchnad Pwllheli yn dilyn hanes o ddigwyddiadau ac ymddygiad a oedd y groes i amodau gweithredol Marchnadoedd Gwynedd.

Cyflwynwyd tystiolaeth i swyddogion yr Uned Trwyddedu ar yr 2il o Fehefin 2014 ac fe waharddwyd Mr A ar y 4ydd o Fehefin 2014 ar sail amod 5.9 a 5.11 o Amodau Marchnad Cyngor Gwynedd.

Gofynnwyd i'r Is Bwyllgor gefnogi gweithrediad y swyddogion a chefnogi y penderfyniad i wahardd Mr A yn barhaol o Farchnadoedd Pwllheli, Porthmadog a Ffeiriau Criccieth.

Nid oedd Mr A yn bresennol i gyflwyno ei sylwadau.

Trafodwyd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Is-bwyllgor.

**PENDERFYNIAD YR IS BWYLLGOR**
**CEFNOGI SWYDDOGION YR UNED TRWYDDEDU YN EU PENDERFYNIAD I WAHARDD MR A YN BARHAOL O HOLL FARCHNADOEDD A FFEIRIAU GWYNEDD**

Adroddodd yr Uned Drwydded y byddent yn anfon llythyr yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn cyfathrebu'r gyda'r Uned Gyfreithiol parthed Hawliau Apêl.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben 11:00am